# Cymorth yng Ngheredigion—Dy hawl i apeliO



Rhoi ti yn y canol

Canllaw i bobl ifanc, rhieni a gofalwyr

Cyngor Sir CEREDIGION County Council



Mae gan bob person ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gynllun datblygu unigol. Bydd y cynllun datblygu unigol yn dweud beth sydd ei angen arnat ti er mwyn gallu dysgu, yn ogystal â beth fydd yn cael ei wneud er mwyn iti gael y cymorth iawn yn yr ysgol neu'r coleg. Rhaid i ti fod yn rhan o'r holl benderfyniadau a wneir am dy gynllun.

**Byddwn yn gofyn iti…**

Beth wyt ti'n ei feddwl o dy CDU?

- Wyt ti'n cytuno efo'r cynllun?
- Wyt ti'n hapus i'r cynllun fynd yn ei flaen?
- Gyda phwy wyt ti'n hapus i rannu dy wybodaeth?

Byddwn yn cofnodi pryd a sut y gwnaed dy benderfyniad.

Mae'n bwysig cofio y galli di newid dy feddwl unrhyw bryd.

## Beth i'w wneud os nad wyt ti'n cytuno

Rydym am gydweithio efo ti i wneud yn siŵr bod unrhyw broblemau'n cael eu sortio cyn gynted â phosib.

Rydym am geisio atal unrhyw anghytundebau am dy gynllun.

Rhaid i ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol wneud yn siŵr dy fod yn cael cymorth i:

- ddeall y cynllun
- bod yn rhan o'r broses o ysgrifennu'r cynllun
- bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnat ti yn y cynllun
- siarad am dy bryderon
- cael atebion i dy gwestiynau

## Beth sy'n digwydd os ydw i dal yn anghytuno gyda fy nghynllun?

Os wyt ti dal yn anghytuno gyda dy gynllun mae angen sortio pethau'n gyflym ac yn lleol.

Galli ofyn i'r awdurdod lleol ail-ystyried rhai penderfyniadau os wyt ti'n anhapus.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- a oes gen ti ADY ai peidio
- y ffordd mae'r ADY yn cael ei ddisgrifio yn dy gynllun datblygu unigol
- y cymorth sy'n cael ei ddisgrifio yn dy gynllun datblygu unigol
- pwy sy'n gyfrifol am ofalu am dy gynllun datblygu unigol

Fel awdurdod lleol rhaid inni:

- wneud yn siŵr y gall rhywun o'r tu allan wrando a helpu.
- wneud yn siŵr bod pobl ifanc a rhieni'n gwybod bod hyn yn bosibl.

Mi fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr nad oes angen i bobl ifanc apelio, a bod modd inni weithio efo'n gilydd i wneud pethau'n iawn.

Mae apêl yn ffordd ffurfiol o ofyn am ail-ystyried penderfyniad am dy fod am iddo newid.

## Gyda phwy ddylwn i gysylltu?

Mae'r Cydlynydd Cefnogi Disgyblion a Theuluoedd ADY yn wasanaeth cyfrinachol am ddim, all gynorthwyo a darparu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb. Am fwy o wybodaeth, cysyllta â'r :
Cydlynydd Cefnogi Disgyblion a Theuluoedd ADY

01545570881

neu e-bostia pps@ceredigion.gov.uk.

neu cer i'n gwefan:
http://www.ceredigion.gov.uk/resident/schools-education/additional-learning-needs/

## Dy hawl i apelio

Os wyt ti dal yn anhapus, mi alli di apelio. Mi alli di herio'r penderfyniadau am dy anghenion dysgu ychwanegol a'th gynllun.

Byddwn yn gwneud ein gorau i ddelio â'th bryderon mor gyflym â phosib.

Mi alli di hefyd ofyn i **eiriolwr** dy helpu. Mae eiriolwr yn rhywun sy'n siarad ar dy ran, i dy helpu i ddweud beth rwyt ti am ei ddweud er mwyn gallu cwrdd â dy anghenion.

Mi alli di ofyn i eiriolwr annibynnol dy helpu i fynegi dy bryderon. Gall **SNAP Cymru** weithio efo ti (a dy deulu) i wneud yn siŵr bod dy lais yn cael ei glywed, a bod dy farn yn cael ei hystyried wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnat ti.

Galli gysylltu â nhw ar 0808 801 0608 neu, am fwy o wybodaeth, cer i'w gwefan www.snapcymru.org

Gall SNAP Cymru dy helpu i apelio. Gallant helpu i wneud pethau fel:

- meddwl am yr apêl a rhoi cyngor a beth ellir ei wneud
- ysgrifennu llythyrau
- mynd i gyfarfodydd i siarad ar ran y plentyn neu berson ifanc.

## Dy hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru

Mae tribiwnlys yn grŵp arbennig o bobl sydd â'r dasg o ddelio ag anghydfod.

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru'n dribiwnlys annibynnol sy'n gwrando ar, ac yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau am anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, a honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion a cholegau.

Gall y tribiwnlys benderfynu a wyt ti'n gallu deall dy gynllun ac yn gallu apelio.

Os nag wyt ti'n deall, gall dy gynrychiolydd apelio i'r tribiwnlys am benderfyniadau a wnaed am dy gynllun.



Gall person ifanc neu riant apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru am bethau, er enghraifft:

- penderfyniad ynghylch pa ADY sydd gan berson ifanc.
- awdurdod lleol yn penderfynu a oes angen cynllun ar berson ifanc.
- pa gymorth sydd ei angen ar y person ifanc yn ôl y cynllun.
- yr ysgol y mae'r cynllun yn dweud y dylai'r person ifanc fynd iddi.
- dim ysgol yn cael ei henwi yn y cynllun.
- penderfyniad i beidio â gwirio cynllun.
- penderfyniad i beidio â pharhau â chynllun.
- penderfyniad ynghylch a ddylid darparu'r cymorth yn Gymraeg.
- penderfyniad i ddod â chynllun datblygu unigol i ben.

Rhaid i bawb gadw at benderfyniad Tribiwnlys Addysg Cymru. Rhaid i unrhyw apêl yn erbyn Tribiwnlys Addysg Cymru fod am y ffordd wnaethon nhw ddefnyddio'r gyfraith.

Os oes angen, gall hyn fynd i Dribiwnlys uwch.

Am wybodaeth bellach, cer i'w gwefan: www.educationtribunal.gov.wales neu ffonia 0300 025 9800.



## Beth os ydw i'n anghytuno â gwasanaeth iechyd?

Os yw dy bryderon neu anghytundebau'n ymwneud â gwasanaeth iechyd, galli ddefnyddio proses 'Gweithio i Wella' y GIG. I ddysgu mwy cer i:

https://www.llyw.cymru/cwynion-phryderon-am-gig-cymru-gweithio-i-wella

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Gwasanaethau Dysgu Ceredigion, Canolfan Rheidol,**
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3UE